

Cylchlythyr | Circular

Astudiaethau Cymreig

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2014
Cyfeirnod: W14/29HE
At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Prifathrawon colegau addysg bellach a ariennir yn
uniongyrchol yng Nghymru
Ymateb erbyn: Nid oes angen ymateb
Cyswllt: Cliona O'Neill
Ffôn: 029 2068 2283
Ebost: cliona.oneill@hefcw.ac.uk

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ynglŷn â'r camau a gymerwyd hyd yn hyn o ran Astudiaethau Cymreig, gan gynnwys adroddiad ar y digwyddiad a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2013, a'r camau nesaf.

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat hygyrch arall, cysylltwch â ni drwy ffonio (029) 2068 2225 neu e-bostiwch info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ynglŷn â'r camau a gymerwyd hyd yn hyn o ran Astudiaethau Cymreig, gan gynnwys adroddiad ar y digwyddiad a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2013, a'r camau nesaf.

Cefndir

2. Er mwyn cyflawni tasgau'r llythyr cylch gwaith a osodwyd yn 2012-13, gofynnodd CCAUC i bob sefydliad addysg uwch (SAU) a phob sefydliad addysg bellach sy'n cael ei gyllido'n uniongyrchol (SAB) ymateb i [arolwg HEFCW](#) ynglŷn â ddarpariaeth mewn Astudiaethau Cymreig. Roedd i'r arolwg ddwy elfen: nodi modiwlau penodol sydd â chynnwys Astudiaethau Cymreig a sylwebaeth gan sefydliadau am y lle sydd gan Astudiaethau Cymreig yng nghwricwlwm amryw ddisgyblaeth a maes pwnc.

Arolwg o Ddarpariaeth Astudiaethau Cymreig

3. Derbyniodd CCAUC ymatebion i'r arolwg gan yr holl SAUau yn ogystal ag ymateb gan un SAB sydd â ddarpariaeth AU. Cadarnhaodd y data a ddychwelwyd bod 2183 o fodiwlau y cydnabyddir eu bod yn cynnwys elfen Astudiaethau Cymreig mewn SAUau yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda nifer o fodiwlau yn ddarpariaeth AU SABau yng Nghymru hefyd. Mae hyn yn 7.5% o'r holl fodiwlau a ddarperir yn y sector SAU¹. Hwn yw'r tro cyntaf y cynhaliwyd dadansoddiad o'r fath felly mae posibilrwydd y bydd sefydliadau wedi tanamcangyfrif maint y ddarpariaeth yn y data a ddychwelwyd.
4. Mae nifer o wahanol gafeatau wedi effeithio ar gadernid y data. Gofynnodd y cylchlythyr gwreiddiol am gyfanswm y niferoedd, ond yn y data a ddychwelwyd gwahaniaethodd rhai sefydliadau rhwng astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig, ond ni wnaeth eraill, ac felly roedd y data a ddychwelwyd yn gyfuniad o astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig. Gofynnodd yr arolwg hefyd i sefydliadau "*ddynodi ar gyfer pob un o'r modiwlau a restrir...cyfran y modiwl y byddech yn ei hystyried sy'n Astudiaethau Cymreig*". Mae'n bwysig nodi felly bod y cyfrannau wedi eu seilio ar farn sefydliadau.
5. Roedd canran y ddarpariaeth 'Astudiaethau Cymreig' ym mhob modiwl yn amrywio o sefydliad i sefydliad. Cynhaliwyd dadansoddiad o'r data, fodd bynnag, o ganlyniad i broblemau ynghylch cadernid y data, ni fyddai'n briodol rhannu'r data hwn ar lefel sefydliadol. Mae'r tabl crynodeb isod yn dangos y sefyllfa yn y sector fel yr adroddwyd yn yr arolwg. Wrth ystyried y tabl hwn, dylid cymryd y problemau gyda'r data a nodwyd ym mharagraffau 3 a 4 uchod i ystyriaeth.

¹ Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) 2011/12 – Mae'r ffigurau'n cynrychioli nifer y dynodwyr modiwl a ddychwelwyd ar endid modiwl y cofnod myfyrwyr. Gall sefydliadau ddewis dychwelyd modiwlau heb unrhyw gofrestrïadau os byddant yn dymuno.

Modiwlau sydd ag elfen Astudiaethau Cymreig mewn SAUau yng Nghymru.

		Cyfran y modiwlau gyda:						
		100% Astudiaethau Cymreig	75% Astudiaethau Cymreig	50% Astudiaethau Cymreig	25% Astudiaethau Cymreig	10% Astudiaethau Cymreig	5% Astudiaethau Cymreig	Cyfanswm
Nifer y modiwlau sydd ag elfen Astudiaethau Cymreig	2,183	31.6%	5.0%	11.8%	18.4%	22.4%	10.8%	100.0%
Cyfanswm nifer y modiwlau	29,150	2.4%	0.4%	0.9%	1.4%	1.7%	0.8%	7.5%

6. Yn fwy eang, rydym mewn sefyllfa i adrodd fod rhai sefydliadau wedi nodi cyfran fwy o lawer o fodiwlau ag elfennau Astudiaethau Cymreig nag eraill. Gallai hyn fod oherwydd gwahanol ddehongliadau a dealltwriaeth o'r syniad o Astudiaethau Cymreig neu y gellid cynnwys Astudiaethau Cymreig yn fwy hwylus yng nghwricwlwm ac arbenigedd gwahanol sefydliadau.
7. Roedd y sefyllfa gyffredinol yn wahanol iawn, gydag un sefydliad yn nodi bod 18.5% o'i bortffolio modiwlau yn cynnwys elfen Astudiaethau Cymreig, tra nododd sefydliad arall mai dim ond 0.5% oedd yn cynnwys yr elfen hon. Mae hyn yn gwneud y gwaith o ddadansoddi'r data'n fwy cymhleth o lawer oherwydd ei fod yn anochel bod y cyfarwyddyd a roddwyd gan CCAUC yn y cyfnod cynnar hwn yn weddol agored ac weithiau, felly, nid yw'n glir ar ba sail resymegol y seiliodd sefydliadau eu data.
8. Roedd yr ystyriaeth gul yn dystiolaeth bod angen codi ymwybyddiaeth o Astudiaethau Cymreig a'r hyn y mae'n ei olygu ar draws sector Cymru.

Digwyddiad Astudiaethau Cymreig

9. Yng ngoleuni tasg llythyr cylch gwaith 2013-14, trafodwyd Astudiaethau Cymreig yn y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd a phenderfynwyd y dylid cynnal digwyddiad er mwyn hybu'r cysyniad o 'Astudiaethau Cymreig', i helpu i greu cyd-ddealltwriaeth o'r hyn a olygir gan y cysyniad, ac i ystyried sut y gallai ddatblygu. Yn dilyn y digwyddiad awgrymwyd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Gweinidog yn amlygu'r lefelau o weithgarwch yn y maes hwn, darparu canlyniadau lefel uchel yr arolwg, canlyniadau'r digwyddiad, ac awgrymiadau ar gyfer datblygu'r cysyniad.
10. Cynhaliwyd seminar ar 29 Tachwedd 2013 ym Mhrifysgol Caerdydd ac fe'i cadeiriwyd gan yr Athro Leni Oglesby. Gwnaed prif gyflwyniad gan yr Athro Merfyn Jones. Mynychwyd y digwyddiad gan 40 o gynrychiolwyr o SAUau; SABau; Colegau Cymru; y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; yr Asiantaeth

Sicrhau Ansawdd; yr Academi Addysg Uwch (AAU); Gwasg Prifysgol Cymru a'r Gymdeithas Ddysgedig. Mae nodyn o'r seminar ar gael yn **Atodiad A**. Gweler y cyflwyniad ar y data yn **Atodiad B**.

Camau nesaf

Data

11. Trafododd y seminar y posibilrwydd o gasglu data yn fuan ar ôl y digwyddiad hwn er mwyn casglu gwaelodlin fwy cadarn, a chasglu data unwaith eto yn y dyfodol er mwyn mesur unrhyw gynnydd mewn darpariaeth. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth gyda'r sector daeth yn amlwg y byddai'n dasg fiwrocraidaidd, cymhleth a llafurus iawn i'r sefydliadau ei chwblhau oherwydd natur eang y cysyniad, a'r ffyrdd gwahanol y gellid ei ddehongli.
12. Nid cyflwyno targed yw ein nod, felly byddai casglu mwy o ddata dim ond yn cyfrannu at gydnabod darpariaeth, ac nid o reidrwydd yn gweithio tuag at annog a gwella darpariaeth o safon. Noder, mae'r data a gasglwyd ym mis Rhagfyr 2012 wedi rhoi cryn dipyn o wybodaeth inni, yn enwedig brwdfrydedd y sector o ran casglu gwybodaeth am Astudiaethau Cymreig a hybu'r cysyniad. Hefyd, dangosodd y data i CCAUC y cwmpas eang sydd gan Astudiaethau Cymreig, ac roedd yn ysgogiad ar gyfer y seminar. Nid ydym felly yn cynnig casglu mwy o ddata.

Cynorthwyo cyhoeddiadau ysgolheigaidd

13. Yn dilyn trafodaeth yn y seminar gyda'r sector ynglŷn â hyrwyddo Astudiaethau Cymreig, rydym wedi rhoi estyniad blwyddyn i'r cyfnod neilltuo ar gyfer y cyllid a glustnodwyd o'r blaen i Wasg Prifysgol Cymru, a gafodd ei drosglwyddo i Ymchwil o Safon (QR) yn 2011/12. Yn 2014/15 bydd y cyllid hwn yn parhau (cyfanswm o £132,000) i gael ei neilltuo o fewn Ymchwil o Safon at ddiben cefnogi cyhoeddiadau ysgolheigaidd a gweithgareddau cysylltiedig ym maes diwylliant, llenyddiaeth, a hanes Cymreig. Mae'r symiau a neilltuwyd ar gyfer sefydliadau unigol yn aros ar y lefelau a nodwyd gennym yn 2011.

Astudiaethau Cymreig

14. Bydd Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn datblygu'r cysyniad o Astudiaethau Cymreig, gan gwmpasu addysgu ac ymchwil. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r sector a phartïon eraill â diddordeb, gyda'r bwriad o archwilio'r ffordd fwyaf priodol y gellid diffinio Astudiaethau Cymreig fel maes pwnc eang a sut y gellid ei ddiogelu a'i ddatblygu o fewn sefydliadau addysg uwch unigol, ac ar draws y sector. Mae'n bosibl y byddai hyn yn llywio'r broses o ddatblygu Gymdeithas Astudiaethau Cymreig maes o law.

Gwybodaeth bellach

15. I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â Cliona O'Neill (ffôn 029 2068 2283; e-bost cliona.oneill@hefcw.ac.uk).